

# Cyflwyno bagiau aml dro ar gyfer ailgylchu



Annwyl breswilydd,

Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i leihau plastig untro, gwella ansawdd ailgylchu ac arbed arian, rydym yn ymestyn ein treial o fagiau ailgylchu y gellir eu haildefnyddio i gynnwys eich ardal chi.

Cafodd bagiau aml dro eu treialu'n llwyddiannus mewn dros 2000 cartref yn Sir Fynwy ers mis Tachwedd 2019.

Bydd y bagiau ailgylchu aml dro yn disodli'r bagiau plastig untro presennol ar gyfer eich casgliadau ailgylchu wythnosol.

**Caiff bagiau newydd eu dosbarthu i chi yn yr wythnos yn cychwyn 19 Hydref.**

**Bydd casgliadau'n defnyddio'r bagiau newydd yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 2 Tachwedd.**

**Bydd eich diwrnodau casglu yn aros yr un peth.**

Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu wrth ddisbarthu'ch bag ac mae rhai cwestiynau cyffredin wedi'u cynnwys ar gefn y llythyr hwn.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cyngor Sir Fynwy

# Cwestiynau Cyffredin

## **Pam newid?**

Cafodd bagiau aml dro eu treialu'n llwyddiannus mewn dros 2000 cartref yn Sir Fynwy ers mis Tachwedd 2019.

Bydd bagiau ailgylchu aml dro yn gostwng faint o fagiau plastig untro a ddefnyddiwn, er budd yr amgylchedd.

Mae'n well gan y farchnad ailgylchu dderbyn y deunydd yn rhydd felly dylai tynnu ein bagiau plastig ostwng costau prosesu. Gellir defnyddio bagiau aml dro drosodd a throsodd ac felly byddant yn costio llai i'w cyflenwi na'r bagiau plastig untro a ddefnyddiwn ar hyn o bryd.

## **Sut ydw i'n defnyddio'r bagiau?**

Rhowch eich ailgylchu glân y tu mewn i'r bag cywir. Sicrhewch eich bod yn defnyddio sêl Velcro i gau'r bag, mae hyn yn golygu y bydd yr ailgylchu'n aros yn sych ac yn ddiogel. Mae'r bagiau wedi'u pwysoli er mwyn osgoi cael eu chwythu i ffwrdd.

## **Sawl bag fyddaf yn cael?**

Bydd pob aelwyd yn y treial yn cael un bag coch ac un bag porffor. Mae'r bagiau wedi'u dylunio i ddal gwerth dau fag plastig o ailgylchu'r un, sy'n golygu y bydd un bag o bob lliw yn ddigon ar gyfer dros 90% o'n cartrefi. Gellir gwneud darpariaeth ar gyfer aelwydydd sy'n cynhyrchu mwy o ailgylchu.

## **Sut fydda i'n gwybod pa fag yw fy un i?**

Mae yna flwch ar y bagiau, a gofynnwn i'r holl drigolion roi enw/rhif eu cartref ar y bag gyda marciwr parhaol fel na ddylen nhw gael eu cymysgu.

## **A fydd fy nyddiau casglu yn newid?**

Na fydd, bydd eich diwrnodau casglu yn aros fel y maent. Rhowch eich gwastraff allan cyn 7am. Gall amser y caiff eich gwastraff ei gasglu amrywio o wythnos i wythnos.


## **Nid wyf wedi derbyn bag?**

Caiff bagiau eu dosbarthu yn ystod wythnos 19 Hydref. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os na chawsoch eich bagiau erbyn 26 Hydref.

## **Byddaf yn cael trafferth cario'r bagiau, sut y gallwch helpu?**

Os ydych yn cael trafferth cario'r bagiau, cysylltwch â ni a bydd ein swyddogion ailgylchu yn gallu eich helpu.

## **Cysylltwch â ni:**

 Ymwelwch â'n gwefan am fwy o wybodaeth: [monmouthshire.gov.uk/cy/bagiau-ailgylchu-amldro/](http://monmouthshire.gov.uk/cy/bagiau-ailgylchu-amldro/)



Blwch Post 106, Cil-y-coed, NP26 9AN



01633 644644 Ymwelwch â'ch Hyb Cymunedol/Llyfrgell Gymunedol.



@MonCCrecycling